Y rhyngrwyd – defnyddio deunydd pobl eraill

Mae'n rhwydd iawn gwneud copïau o ddeunyddiau ar y rhyngrwyd. Ond cofiwch fod lluniau, testunau a chlipiau clywedol neu fideo yn eiddo i rywun arall. Mae yna reolau ynglŷn â chopïo deunydd pobl eraill. Gelwir y rheolau hyn yn '**rheolau hawlfraint**'. Os ydych yn copïo deunydd pobl eraill o'r rhyngrwyd heb ganiatâd, rydych yn torri'r gyfraith. Gelwir hyn yn '**dwyn hawlfraint**'. Gallech gael eich cymryd i'r llys, cael dirwy neu eich anfon i'r carchar am dorri rheolau hawlfraint.

Llwytho cerddoriaeth o'r rhyngrwyd

Mae gennych yr hawl i lwytho cerddoriaeth yn rhad ac am ddim ar yr amod bod gennych ganiatâd y perchennog. Ni chaiff y gerddoriaeth ei amddiffyn gan y rheolau hawlfraint. Mae yna wefannau arbennig sy'n cynnwys y gerddoriaeth hon neu ewch at wefan yr artist neu'r band i weld pa gerddoriaeth allwch ei llwytho yn rhad ac am ddim. Mae rhai gwefannau yn cynnwys cymysgedd o gerddoriaeth am ddim a chaneuon y bydd angen i chi dalu amdanynt. Mae gwefannau eraill yn cynnwys caneuon y mae'n rhaid i chi dalu amdanynt yn unig. Sicrhewch eich bod yn darllen yr amodau cyn i chi gofrestru ar un o'r gwefannau hyn.

Mae'n bosib y gallwch storio ar eich cyfrifiadur neu lwytho i'ch chwaraewr cerddoriaeth digidol (MP3 neu iPod) ganeuon yr ydych eisoes wedi'u llwytho yn gyfreithlon. Bydd hyn yn dibynnu ar amodau'r gwerthiant. Nid oes hawl gennych i storio cerddoriaeth ar eich cyfrifiadur oddi ar gryno ddisg neu ei chopïo i'ch chwaraewr cerddoriaeth digidol.

Mae yn erbyn y gyfraith i lwytho cerddoriaeth os nad ydych wedi'i phrynu neu os nad oes gennych ganiatâd i'w defnyddio.

Mae hefyd yn erbyn y gyfraith i 'rannu ffeiliau' (llwytho cerddoriaeth i'w rannu gydag eraill drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd). Os ydych wedi llwytho neu rannu ffeiliau yn anghyfreithlon, gallwch gael eich olrhain trwy eich cyfeiriad IP. Mae'n bosib y byddwch yn derbyn rhybudd gan eich Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (IPS). Yn bresennol, nid oes ganddynt unrhyw bŵer cyfreithiol i'ch datgysylltu am lwytho anghyfreithlon neu rannu ffeiliau. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddant yn gofyn i chi dalu iawndal. Mynnwch gyngor os yw hyn yn digwydd i chi.

Beth allwch ei gyhoeddi ar wefan eich hun

Os ydych yn cyhoeddi ar eich gwefan, sicrhewch nad ydych yn torri'r rheolau hawlfraint. Er enghraifft, nid ydych yn gallu cynnwys ffotograffau a gymerwyd gan ffotograffydd na chyhoeddi ar y rhyngrwyd heb ganiatâd y ffotograffydd. Ni allwch gopïo testunau mawr a ysgrifennwyd gan rywun arall, hyd yn oed os ydych yn dweud mai gwaith rhywun arall ydyw. Fodd bynnag, gallwch ofyn i'r safle am ganiatâd i gopïo'r gwaith. Bydd llawer o safleoedd yn rhoi caniatâd i chi gopïo eu gwaith. Bydd llawer o safleoedd yn rhoi eu caniatâd i chi wneud hyn cyn belled â'ch bod yn dweud nad eich gwaith chi ydyw. Gallwch hefyd ddefnyddio **dolen** i'ch tywys i wefan arall heb ofyn am ganiatâd (er ei fod yn arfer da i ofyn am ganiatâd).

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Copïo meddalwedd cyfrifiadurol

Mae meddalwedd cyfrifiadurol hefyd yn cael eu hamddiffyn gan y rheolau hawlfraint. Pan ydych yn prynu meddalwedd, rydych mewn gwirionedd yn prynu'r hawl i ddefnyddio'r cynnyrch yn unol â'r telerau ac amodau cytunedig (**y cytundeb trwyddedu**). Os nad ydych yn dilyn y cytundeb trwyddedu, rydych yn torri'r gyfraith. Gallech gael eich cymryd i'r llys, cael dirwy neu eich anfon i'r carchar os ydych yn torri'r rheolau hawlfraint.

Er enghraifft, os ydych yn prynu rhaglen feddalwedd ac mae'r cytundeb trwyddedu yn dweud mai un person sy'n gallu ei defnyddio, rydych yn torri'r gyfraith os ydych yn gosod y rhaglen ar gyfrifiaduron pobl eraill.

Yn aml gelwir rhaglenni meddalwedd, cryno ddisgiau, fideos a DVDau sydd wedi cael eu copïo heb ganiatâd y perchennog yn **fersiynau dynwaredol**.

Mae rhai **gwerthwyr twyllodrus** yn llwytho fersiynau dynwaredol o feddalwedd ar y cyfrifiadur cyn i chi eu prynu. Gallai'r meddalwedd hwn fod yn anghyflawn neu gallai gynnwys firysau. Hefyd ni fydd gennych yr hawl i gymorth technegol os oes pethau yn mynd o chwith. Fel rheol gyffredinol, os brynwch gyfrifiadur ail-law neu wrth werthwr na allwch ymddiried ynddo a bod meddalwedd eisoes wedi'i osod arno, mae'n debyg bydd y feddalwedd yn fersiwn dynwaredol.

Gall rhai meddalwedd ymddangos fel bod modd ei lwytho yn rhad ac am ddim oddi ar y rhyngrwyd. Fodd bynnag, bydd angen i chi wirio'n ofalus p'un ai bod gennych yr hawl i'w lwytho. Er enghraifft, mae'n bosib y cafodd ei osod ar y rhyngrwyd heb ganiatâd y perchennog. Os nad ydych yn siŵr p'un ai y dylech fod y llwytho meddalwedd ai peidio, cysylltwch â'r **Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Meddalwedd** - gweler Cymorth Ychwanegol.

Mae gennych yr hawl i wneud copïau wrth gefn o feddalwedd er defnydd eich hun. Gwiriwch gyda chyhoeddwr y meddalwedd neu'r cytundeb trwyddedu os nad ydych yn siŵr beth yn union yw copïau wrth gefn cyfreithiol.

Prynu nwyddau dynwaredol ar y rhyngrwyd

Mae gwerthu cryno ddisgiau, fideos neu DVDau dynwaredol ar y rhyngrwyd yn gyffredin iawn. Mae hefyd yn gyffredin i werthu nwyddau dynwaredol eraill megis dillad, bagiau a sbectol haul cynllunwyr ffug fel eitemau dilys. Mae gwerthu nwyddau dynwaredol ar y rhyngrwyd, neu unrhyw le arall, yn erbyn y gyfraith. Os gwerthwyd nwyddau dynwaredol i chi, cysylltwch â'r heddlu neu Gyswllt Defnyddwyr (gweler Cymorth Ychwanegol am fanylion cyswllt).

Nid yw'n hawdd bob amser i ddweud p'un ai bod y nwyddau a brynoch ar y rhyngrwyd yn rhai dynwaredol. Os ydych yn prynu fideo neu DVD, bydd stamp y Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain yn dangos ei fod yn gynnyrch dilys ar gyfer farchnad y DU. Mae gwefan y **Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Hawlfraint** yn esbonio sut i adnabod DVD dilys neu dynwaredol - gweler Cymorth Ychwanegol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Cyswllt Defnyddwyr
Gallwch riportio nwyddau dynwaredol i Gyswllt Dynwaredol ar-lein yn: www.consumerdirect.gov.uk/complaints, neu ffoniwch nhw ar 0845 4040 0506.

Y Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Meddalwedd
Mae gan y Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Meddalwedd (FAST) wybodaeth ddefnyddiol am gyfreithiau hawlfraint yn: www.fast.org.uk.

Y Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Hawlfraint
Mae gan wefan y Ffederasiwn yn Erbyn Dwyn Hawlfraint (FACT) wybodaeth ddefnyddiol am DVDau dynwaredol yn: www.fact-uk.org.uk

Yr heddlu
Chwiliwch am fanylion eich heddlu lleol yn: www.neighbourhoodpolicing.co.uk

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Gwefannau annymunol
- Prynu dros y rhyngrwyd
- Twyll ar y rhyngrwyd

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 04 Rhagfyr 2009, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr